

Sylfeini Arian

Codi arian i Glybiau Gofal Plant Allysgol



Canllaw
Sut
i Wneud

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
Prosiect Santander



Santander

FOUNDATION

Clybiau
Plant
Cymru



KIDS' CLUBS



Sylfeini Arian

Codi arian i Glybiau Gofal Plant Allysgol

Canllaw Sut i Wneud

Rhagair

Rydym wedi datblygu'r adnodd hwn yn rhan o'n prosiect sydd wedi ei ariannu gan Grant Darganfod Santander, i gefnogi Clybiau Gofal Plant ledled Cymru i ymgymryd â'u gweithgareddau codi arian eu hunain, yn cynnwys plant oed 3-14 drwy'r broses er mwyn cynyddu eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth o arian, cyllidebu a rheoli eu cyllidebau eu hunain. Yn ogystal â hyrwyddo datblygiad sgiliau, mae cynnwys plant yn gwneud yn siŵr fod ganddynt lais yn yr hyn sydd o bwys iddyn nhw, ac yn eu hannog i ymgysylltu.

Daeth ein Swyddogion Hyfforddi â'u gwybodaeth o ddysgu drwy chwarae, a datblygiad plant i ddatblygu sgiliau hanfodol a fydd yn dal o fantais iddynt wrth ddod yn oedolion, drwy gynyddu eu gallu i reoli eu harian eu hunain.

Mae'r 'Canllaw Sut i Wneud' wedi ei anelu at Weithwyr Chwarae sy'n gweithio mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol, i'w galluogi i gefnogi plant i gynnal eu digwyddiad codi-arian eu hunain.

Sylfeini Arian

Codi arian i Glybiau Gofal Plant Allysgol

Canllaw Sut i Wneud



Ble i ddechrau

Gofynnwch am Wirfoddolwyr ar gyfer Gweithgor Codi Arian a threfnwch i gynnal cyfarfod dechreuol. Yn y cyfarfod hwnnw, gofynnwch y cwestiynau canlynol er mwyn annog y plant i feddwl am eu syniad am gofi arian eu rolau/cyfrifoldebau, marchnata a gwybodaeth ariannol.

Gallech ddarparu darnau mawr o bapur â phenawdau ar ben pob un. Yna gallent ddefnyddio'r darnau papur hyn i ysgrifennu, neu dynnu lluniau arnynt.

Eich Tîm - Rolau a Chyfrifoldebau

Mae llawer o wahanol rolau mewn tîm pan fyddant yn trefnu digwyddiad neu brosiect codi arian - mae pob rôl yn bwysig iawn ac mae ar bawb angen chwarae eu rhan er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn llwyddo. Byddai'n anodd iawn i un person gynnal digwyddiad neu brosiect, ac felly mae cael gwahanol unigolion â gwahanol sgiliau a thasgau y gallant y eu cyfrannu'n gwneud i bethau redeg yn fwy esmwyth a llwyddiannus.

Gallai'r rolau y bydd angen i chi eu cynnwys:

Rheolwr Prosiect - "Y Bos" - rhywun i arolygu'r digwyddiad/cynllunio/prosiect, a fydd yn cadw llygad ar yr holl elfennau ac yn gwneud yn siŵr fod pawb arall yn gwneud eu tasgau nhw.

Cyfarwyddwr Creadigol – hwn yw'r person sy'n arwain ar y syniadau ac sy'n glir ynghylch sut y dylai'r cynnyrch/digwyddiad fod, sut y dylai edrych, sut y bydd yn gweithio. Y Cyfarwyddwr Creadigol sydd hefyd yn arolygu'r marchnata/hysbysebu.

Cynorthwyr Marchnata - mae'r bobl hyn yn dyfeisio ac yn creu defnyddiau marchnata i hyrwyddo'r cynnyrch/digwyddiad.

Cynorthwyr Creadigol – mae'r bobl yma'n dylunio ac yn creu'r cynnyrch sydd i'w weithio, neu'r pethau y mae eu hangen ar gyfer y digwyddiad yma.

Rheolwr Ariannol - mae'r person yma'n gosod ac yn arolygu'r gyllideb (cynllunio sut i wario'r arian sydd ei angen i gynnal cynhyrchu'r nwydd/digwyddiad) a chadw cyfrifon ariannol (h.y. cofnodi'r arian a werir a'r arian a enillir).

Cynorthwyr Ariannol – i gefnogi tasgau'r rheolwyr ariannol

Yna gall pawb weithio gyda'i gilydd fel tîm i gynnal y digwyddiad, neu i werthu'r cynnyrch i godi arian.

Cam gweithredu – penderfynu pwy sy'n mynd i gymryd pa gyfrifoldebau yn y tîm.



Sylfeini Arian

Codi arian i Glybiau Gofal Plant Allysgol

Canllaw Sut i Wneud

Y Syniad

Mae angen i'r plant gynnig syniad am wasanaeth, digwyddiad neu gynnyrch y gallant ei werthu. Bydd rhai pobl yn cael syniad da o'r dechrau, bydd yn rhaid i eraill efallai wneud ymarfer a elwir, Mapio'r Meddwl, lle gallant feddwl drwy amryw o syniadau a sut y gallent/na allent weithio.

Cwestiynau i ofyn i'r plant:

A yw'r ddelfryd yn realistig? A ellir ei gyflawni?

Beth fyddai ei angen i wneud iddo ddigwydd? A fyddwch chi'n gallu ei wneud?

Bydd y camau nesaf yn helpu'r plant i ateb rhai o'r cwestiynau hyn.

Cam gweithredu – come up with the idea

At bwy ydych chi'n anelu'ch hysbysebu? Pryd, Ym mhle a Pham?

Cwestiynau i ofyn i'r plant:

Pwy yw'r bobl yr ydych yn ei werthu iddynt?

Ai chi yw'r unig rai sy'n gwerthu'r cynnyrch?

A oes marchnad darged? E.e. a ydych ddim ond yn gwerthu i blant? A fydd y syniad (cynnyrch/digwyddiad/gwasanaeth) yn apelio i'r farchnad darged hon? A yw'r galw o'r farchnad darged yn ddigon, neu a fyddi'n well bod â marchnad darged fwy?

Beth yw'ch Pwynt Gwerthu Unigryw (USP)? Beth sy'n eich gwneud chi'n wahanol i'r hyn y mae pobl eraill ynei wneu/ei werthu

Cam gweithredu – penderfynwch i bwy y byddwch yn gwerthu.

Faint fydd y gost?

Gosodwch gyllideb – a oes gennych arian y gall y plant ei ddefnyddio i brynu'r hyn sydd ei angen?

I wneud yr eitemau neu sefydlu'r gwasanaeth (megis golchi'r car) mae angen i chi brynu'r defnyddiau i ddechrau. Bydd angen i'r plant wybod faint y mae'n ei gostio i greu/gynnal y cynnyrch/gwasanaeth. Os yw'n bosibl, holwch os gallant gael eitemau rhad (neu am ddim) - efallai y byddai ambell i fusnes lleol yn barod i roi eitemau am ddim i gefnogi eich digwyddiad codi arian. Gall Gweithwyr Chwarae helpu'r plant i wneud hyn.

Sylfeini Arian

Codi arian i Glybiau Gofal Plant Allysgol

Canllaw Sut i Wneud



ENGHRAIFFT – GOLCHFA GEIR

Beth fydd eu hangen arnom i olchi ceir?

- Bwcedi a sbwnjis
- Shampŵ ceir
- Cwyr Ceir
- Cadachau glân i wneud y gwaith cwyr
- Dŵr a hosau dŵr
- Rhywle i barcio'r ceir.

Beth fyddwn eu hangen	Sawl un?	Y gost fesul eitem	Cyfanswm	Y Gyllideb sydd ar ôl i'w wario
Cyfanswm y Gyllideb sydd i'w wario				£20.00
Bwcedi a sbwnjis	4	£2.50	£10.00	£10.00
Siampŵ Ceir	2	£2.99	£5.98	£4.02
Cwyr Ceir	1	£2.99	£2.99	£1.03
Cadachau glân	4	AM DDIM	£0	£1.03
Defnydd o faes parcio'r ysgol, hos ddŵr a dŵr		AM DDIM	£0	£1.03

Cam gweithredu – cynlluniwch eich cyllideb!

Sut fyddwch chi'n gwneud arian? Sut fydd hyn yn llwyddiannus?

Cwestiynau i'w gofyn i'r plant:

Beth sydd angen i chi godi am eich gwasanaeth/cynnyrch i dalu am gost prynu'r defnyddiau sydd eu hangen a gwneud elw?

A oes gwerthwyr lleol eraill yn cynnig rhywbeth tebyg? Beth maen nhw'n ei godi? (Os oes gan y plant fynediad at gyfrifiadur, gallant gynnal eu hymchwil eu hunain ynghylch cystadleuwyr i'r farchnad!)

Ar y gost yr ydych yn ystyried ei chodi, sawl cynnyrch/gwasanaeth a fydd yn rhaid i chi eu gwerthu i dalu'ch costau? Faint fydd yn rhaid i chi eu gwerthu i gyrraedd eich targed o ran elw (yr arian a wneir)?

Enghraifft: rydych chi'n bwriadu codi £3 am bob golchfa, sy'n rhatach na'r gystadleuaeth leol.

£20 (costau) / £3 = 6.6 → byddai angen i chi olchi cyfanswm o 7 car i gwrdd â'ch costau.



Sylfeini Arian

Codi arian i Glybiau Gofal Plant Allysgol

Canllaw Sut i Wneud

Rydych am wneud elw o £50 yn ystod y dydd.

$£50 / £3 = 16.6 \rightarrow 17$ (wedi'i dalgrynnu i fyny) + 7 (y ceir sydd eu hangen i gwrdd â'r gost) = 24 car

Bydd angen i chi olchi cyfanswm o 24 car i gwrdd â'ch costau a gwneud £50 o elw yn ychwanegol.

Gall y cyfrifiadau a'r trafodaethau hyn hefyd eich helpu i gyfrifo sawl cynnyrch y bydd eu hangen arnoch i wneud / faint o bobl y gallai fod eu hangen arnoch i 'weithio' yn y digwyddiad (e.e. golchi ceir).

Cam gweithredu – penderfynwch sut y mae'ch prosiect yn mynd i wneud arian, a phennwch eich costau.

Marchnata a Chyhoedduswydd – dweud wrth bobl am eich codwr arian

Yn awr fod gennych eich syniad a'ch cyllideb, mae angen i chi ddweud wrth bobl amdano!

Cwestiynau i ofyn i'r plant:

SUT ydych chi'n mynd i ddweud wrthyn nhw? A ydych chi'n gwneud posteri?

BLE ydych chi'n mynd i hysbysebu – ar y cyfryngau cymdeithasol? Mewn cylchgronau (e.e. cylchgrawn yr ysgol), posteri mewn manau yn gymdogaeth, baneri?

PRYD ydych chi'n mynd i ddweud wrthyn nhw – mae angen i bobl wybod ymlaen llaw, yn enwedig os yw'n ddigwyddiad!

Unwaith y byddwch yn gwybod hyn, mae'n amser creu eich defnyddiau cyhoedduswydd eich hunain. Cofiwch, mae angen i chi wneud yn siŵr fod y deunydd yn cynnwys yr holl bobl sydd ei hangen ar bobl:

Beth sydd ar bobl angen ei wybod?

BETH YW hyn? PRYD mae hyn? BLE mae hyn? Faint mae'n ei gostio?

Cam gweithredu – gwnewch eich deunydd marchnata eich hun!

Monitro

Unwaith y byddwch wedi penderfynu ar eich syniad a'ch cynulleidfa, mae angen i chi 'fonitro' eich Prosiect Codi Arian. Ystyr monitro yw cadw llygad ar faint o'ch arian sy'n cael ei wario, yr arian sy'n cael ei dderbyn, ac adolygu'r ffordd y mae pethau'n mynd i weld a oes angen newid unrhyw beth.

Gall y swm o'ch arian sydd wedi cael ei wario fod yn wahanol i'ch cyllideb (yr hyn yr oeddech yn

Sylfeini Arian

Codi arian i Glybiau Gofal Plant Allysgol

Canllaw Sut i Wneud



ei ddisgwyl) - gall prisiau fod wedi codi ers i chi wneud eich ymchwil, gallai fod cynigion ar gael weithiau, neu efallai i chi weld angen mwy o eitemau nag yr oeddech wedi'i feddwl ar y dechrau.

Gallwn gadw cofnod o'n cyfrifon (rhestr o'n holl arian i mewn ac arian allan) ar daenlen neu ar bapur drwy ddefnyddio tabl fel yr un isod.

Os oes gennych rif cadarnhaol yn y golofn gyfanswm, mae hwn yn elw, ond mae rhif negyddol yn gollod. Os mai 0 yw'r rhif, adennill costau fydd hyn. Pan fyddwch yn codi arian neu'n cynnal prosiect, y bwriad yw gwneud elw, ac felly rhaid i'r golofn Gyfanswm fod yn rhif cadarnhaol, nid negyddol.

Enghraifft: Golchfa Geir

Incwm (Arian i mewn)			Gwariant (Arian Allan)			Cyfanswm
Dyddiad	Eitem	Swm	Dyddiad	Eitem	Swm	
1/10/19	Cyllideb ar gyfer eitemau codi arian	£20.00				£20.00
			3/10/19	Bwcedi a sb-wnjjs	£10.00	(Cyfanswm blaenorol plws incwm minws gwariant) = £10.00
			3/10/19	Siampŵ ceir	£6.50	£3.50
			3/10/19	Cwyr ceir	£2.50	£1.00
20/10/19	Golchfa geir – 26 car	£78.00				£79.00

Unwaith y byddwch wedi cynnal eich digwyddiad, edrychwch ar eich swm terfynol (yn yr enghraifft uchod, £79.00) a meddyliwch yn ôl dros eich digwyddiad.

1. A wnaeth y digwyddiad (a'r cynllunio a'r monitro) fynd yn ôl y cynllun? Os na, pam lai?
2. A wnaethoch chi elw? Os na, beth a ellid ei wneud yn wahanol y tro nesaf? A oes angen i chi newid lleoliad, syniad neu gynulleidfa eich digwyddiad?
3. A wnaeth pawb fwynhau eu rôl yn y tîm? A ellid defnyddio'r sgiliau'n well mewn rolau eraill?
4. Os ydych wedi gwneud elw, a ellid defnyddio rhan o'r elw hwn i gynnal mwy o ddigwyddiadau codi arian, i gynyddu'ch elw cyffredinol?

Cam gweithredu – cwblhewch eich cyfrifon

Cam gweithredu – gwerthuswch eich digwyddiad drwy gyfrwng y cwestiynau uchod

Hwyl i chi wrth Godi Arian! I gael help a chyngor pellach ar godi arian ac ar ariannu, cysylltwch â'r Swyddfa Ranbarthol o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.



KIDS' CLUBS

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn bodoli i helpu cymunedau yng Nghymru drwy hyrwyddo, datblygu a chefnogi clybiau gofal plant all-ysgol sydd o ansawdd, yn hygyrch ac yn fforddiadwy.

Rydym yn gyfundrefn Cymru-gyfan sydd yn helpu i sefydlu, datblygu a chefnogi clybiau gofal plant all-ysgol. Rydym yn help clybiau, neu ddarpar glybiau i wneud cais am ariannu, ac yn hyfforddi a chefnogi staff clybiau yn ystod cyfnodau sefydlu a rhedeg clybiau.

Swyddfa Gofrestredig: Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Tŷ'r Bont, Ffordd Yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd, CF14 5UW

Ffôn: 029 2074 1000 Email / Ebst: infoclybiauplantcymru.org

Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436. Elusen Gofrestredig 1093260.